# Polisi Gwytnwch: Datganiad o Fwriad

# HSA-10200-01

| | |
|---|---|
| Enw'r Ddogfen | Polisi Gwytnwch: Rhan 1: Datganiad o Fwriad |
| Rhif Cyfeirnod y Ddogfen | HSA-10200-01 |
| Diwygiad | 1.0 |
| Dyddiad Cyhoeddi | Hydref 2022 |
| Lluniwyd gan | Andy Walters |
| Diwygiwyd gan | |
| Cymeradwywyd gan | |
| Adolygwyd gan | Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Gwytnwch |
| Cyswllt e-bost | healthandsafety@abertawe.ac.uk |

## Cofnod Diwygio

| **Diwygiad** | **Dyddiad** | **Diwygiad/Diwygiadau** |
|---|---|---|
| **0** | Hydref 2022 | Fersiwn Ddrafft Derfynol. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Gwytnwch am sylwadau ac i gael ei chymeradwyo |
| **1.0** | Tachwedd 2022 | Rhifyn 1 |

## 1. Cwmpas y Polisi

Mae'r Polisi Gwytnwch hwn yn rhan o'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Gwytnwch a'r trefniadau cysylltiedig.

## 2. Datganiad o Fwriad

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddarparu'r adnoddau i sicrhau ei bod yn barod i ymateb i argyfwng mawr ac adfer ar ôl argyfwng o'r fath.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i reoli argyfyngau ar gyfer holl weithgareddau'r Brifysgol, ym Mhrydain Fawr neu dramor, ac mae'n dilyn fframwaith JESIP (Rhaglen Rhyngweithredu ar y Cyd y Gwasanaethau Brys) i nodi a llunio mesurau ataliol a chynlluniau wrth gefn, darparu adnoddau ar eu cyfer, a'u rhoi ar waith, drwy asesiadau risg rheolaidd. Yn benodol, bydd y Brifysgol yn gwneud y canlynol:

- Lleihau, lliniaru neu reoli effaith argyfwng mawr ar y Brifysgol a'r cymunedau cyfagos.
- Ymateb drwy ddarparu adnoddau priodol i reoli'r argyfwng, gan gynnwys hwyluso ffyrdd o gyfathrebu, gwneud penderfyniadau a defnyddio adnoddau'n briodol yn ystod cam ymateb ac adfer yr argyfwng.
- Sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i'r gwasanaethau brys a phartneriaid eraill yn unol â chategorïau Deddf Argyfyngau Sifil 2004, gan eu galluogi i weithredu gan ddefnyddio egwyddorion JESIP a chydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol perthnasol.
- Darparu'r adnoddau i alluogi'r Brifysgol i barhau i weithredu, mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac sy'n gweddu i'w busnes.
- Rhannu gwybodaeth briodol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- Lliniaru effaith ariannol yr argyfwng i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol.
- Bydd y Brifysgol yn darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth ar gyfer myfyrwyr a chyflogeion yn ôl yr angen, i'w galluogi i ddeall eu rôl ym mhrosesau a gweithgareddau gwytnwch y Brifysgol, ac i gyfrannu'n gadarnhaol at barodrwydd y sefydliad i ymdrin ag argyfwng.

Bydd y Brifysgol yn paratoi cynlluniau argyfwng sy'n nodi meysydd risg ac effaith uchel. Bydd y cynlluniau hynny'n:

- Cael eu creu drwy ymgynghori â phartneriaid mewnol ac allanol.
- Cynnwys gwybodaeth a all hwyluso ymateb effeithiol i argyfwng a galluogi'r brifysgol i adfer ar ei ôl.
- Cael eu cynnal a'u diweddaru mewn ymateb i newidiadau o ran prosesau, pobl neu'r ystad.
- Cael eu hadolygu bob blwyddyn a'u harfer yn rhannol neu'n llwyr pan fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.

Mae'r datganiad hwn wedi cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu ar ran y Brifysgol gan:

**Llofnod (Cadeirydd y Cyngor):** B G Phillips **Dyddiad: 27/03/2023**

**Llofnod (Is-ganghellor):** P J Boyle **Dyddiad: 27/03/2023**

**Dyddiad adolygu:** (Ddwy flynedd ar ôl iddo gael ei lofnodi neu os oes newid sylweddol)